# Gwynedd Carbon Isel

## 'Tips' i Arbed Ynni Adref

1. Cadw drysau a ffenestri ar gau os yw'r gwres ymlaen.
2. Defnyddiwch amserydd gwres – does dim pwrpas cynhesu eich tŷ os nad ydych adref!
3. Trowch y thermostat i lawr! Mae troi y thermostat i lawr 1 gradd c yn lleihau'r ynni y mae'n ei ddefnyddio i wresogi oddeutu 10%
4. Caewch y llenni pan mai'n dechrau tywyllu i gadw mwy o wres i fewn.
5. Os yw tywydd yn caniatáu, defnyddiwch y lein ddillad yn hytrach na'r peiriant sychu dillad.
6. Llenwch y peiriant golchi dillad – mae 1 llwyth llawn yn defnyddio llai o ynni na 2 hanner llwyth!
7. Peidiwch a gorlenwi yr oergell a'r rhewgell.
8. Peidiwch a gadael drws yr oergell neu'r rhewgell ar agor yn rhy hir.
9. Defnyddiwch ddŵr budr – h.y. gweddill y dwr ar ôl i chi olchi llestri, i rinsio tuniau, gwydrau a phlastigion cyn eu hailgylchu.
10. Defnyddiwch gawod (byr) yn lle llenwi bath! Nid yw hyn yn wir bob tro – mae 'power shower' yn gallu defnyddio mwy o ynni na chynhesu dwr ar gyfer bath!
11. Peidiwch a llenwi y tegell bob tro. Berwch y dwr da chi ei angen yn unig. Mae'n cymryd mwy o ynni i ferwi tegell llawn na hanner tegell.
12. Newidiwch fylbiau golau am rai sydd yn defnyddio llai o ynni. Erbyn heddiw, mae llawer mwy o ddewis o fylbiau ynni isel. Mae modd dewis lliwiau gwahanol i'r bwlb, ac mae'n bosib cael rhai sydd ddim yn cymryd amser i gynhesu. Mae'r bylbiau hyn hefyd yn debygol o bara yn llawer hirach na bylbiau confensiynol.
13. Ystyriwch ynysu eich to yn well er mwyn cadw gwres i fewn dros y gaeaf.
14. Ystyriwch ynysu'r gofod rhwng y waliau allanol ('cavity wall') ond byddwch yn ofalus – nid yw'n addas ar gyfer pob adeilad, yn enwedig mewn safle agored. Gofynnwch am gyngor gan arbenigwr yn gyntaf.
15. Os ydych yn teimlo drafftiau o amgylch y tŷ –llenwch dyllau er mwyn atal drafftiau a lleihau'r gwres sy'n dianc o'r tŷ.
16. Prynwch diwbiau i ynysu pibellau gwres a dwr poeth. Fel mae'r dwr poeth yn teithio drwy'r pibellau, mae'r gwres yn dianc drwy'r metel. Mae ynysu y pibellau hyn i gadw'r gwres ynddynt yn ffordd sydyn i arbed ynni ac arian.
17. Peidiwch a gadael offer ar fodd segur ('standby'), gan fod rhain yn dal i ddefnyddio trydan.
18. Cofiwch ddiffodd offer gwefru ('chargers') ar ôl i chi dynnu'r teclyn oddi arno.
19. Gwisgwch siwmper cyn troi'r gwres i fyny!

***Cyngor Carbon Isel → Gwynedd Carbon Isel***